## Y Grawys

### Darlleniad 1: Salm 139:23–24

### Darlleniad 2: Ioan 13:31–35

**Gweddi**

‘Arweinydd pererinion’, diolchwn i ti am sicrhau nod, pwrpas ac ystyr i fywyd ar y ddaear. Dwyt ti ddim am i neb ohonom grwydro’n ddiystyr a dibwrpas.

‘Tyrd atom ni, O! Dad ein Harglwydd Iesu,
I’n harwain ato ef.’

Ie, tyrd â ni i’r man rwyt ti am i ni ddod iddo yn Iesu, yr hwn sydd yn gwaredu, bendigaid Fab y nef. ‘Dwg ni i ffordd llesâd’ yn y gwasanaeth hwn heddiw.

Fel y nesawn ni atat ti, diolchwn y bydd i tithau nesáu atom ni. Trwy dy ras, par i’r Grawys hwn fod yn amser o ddisgyblaeth a pharatoi ysbrydol i ni ar gyfer y Groglith a’r Pasg.

‘Moliannwn di, O! Arglwydd,
Wrth feddwl am dy ras
Yn trefnu ffordd i’n gwared
O rwymau pechod cas:
Wrth feddwl am y gwynfyd
Sydd yna ger dy fron
I bawb o’r gwaredigion,
’N ôl gado’r fuchedd hon.’

Haleliwia! Clod i ti am i ti yn Iesu ddod atom lle rydym – i ganol ein cyflwr a’n hangen fel pechaduriaid colledig. O gariad atat ti, ac mewn ufudd-dod i ti, y Tad tragwyddol, daeth yr Arglwydd Iesu, yr Un perffaith, atom ni’r amherffaith. Yn ifanc, cymerodd y llwybr a arweiniodd i’r groes. A diolchwn i ti am iddo wneud i’r ychydig flynyddoedd y bu yma gyfrif a bod o werth. Diolchwn i ti ei fod wedi medru defnyddio pob dim a ddaeth i’w ran. Diolch ei fod ef yn feistr ar yr amgylchiadau, ac nad oedd yr amgylchiadau’n feistr arno ef.

Y Grawys hwn, O am weld fod yr Arglwydd Iesu’n ein gwahodd i fynd yr holl ffordd gydag ef. Ydym, O Dad, rydym fel aelodau dy Eglwys am gael archwiliad manwl gennyt y Grawys hwn. Ymdawelwn yn dy bresenoldeb sanctaidd yn awr. Ac wrth i ninnau ymdawelu, amlyga dithau’r pethau hynny sy’n groes i’th ewyllys, sy’n atal gwaith dy ras ac sy’n rhwystro dy deyrnas rhag ehangu.

*Cyfnod o dawelwch*

Rydym yn euog o hunan-dyb a mympwy. Maddau i ni. Rydym yn euog o goegni a gweld beiau; rydym yn llawn hunanddiddordeb. Maddau i ni. Rydym yn euog o lwfrdra moesol; rydym yn golchi’n dwylo o’n cyfrifoldebau fel Cristnogion. Maddau i ni. Rydym yn euog o adweithio yn anghristnogol yn hytrach na gweithredu yn Gristnogol. Maddau i ni. Rydym yn agos at Iesu, ond eto’n euog o’i fradychu a’i wadu. Maddau i ni. Rydym yn euog o ariangarwch. Maddau i ni. Rydym yn euog o hwyluso pethau ar draul eraill er ein mantais ein hunain. Maddau i ni. Rydym yn euog o falchder. Maddau i ni. Rydym yn euog o gamddefnyddio Iesu er mwyn ein bwriadau hunanol. Maddau i ni. Rydym yn euog o droi addoliad yn adloniant. Maddau i ni.

Helpa ni i gerdded gyda’r Gwaredwr Iesu i Galfaria, gan fyfyrio’n dawel uwch yr hyn a olygai’r daith boenus honno iddo. Ydym, rydym am fynd yr holl ffordd gydag ef, gan ein hildio ein hunain iddo’n llwyr, fel y medr ef gymryd trosodd ynom. Clod i ti ei fod ef, O Dad, wedi ei roi ei hun yn llwyr trosom, er mwyn i ni’r annheilwng rai fedru bod yn eiddo llwyr iddo ef am byth.

‘Dim ond calon lân all ganu,
Canu’r dydd a chanu’r nos.’

Caner tragwyddol glod i ti, ein Tad, yr un wnaeth y ‘ffordd yn rhydd i’r nefoedd wen’. Yn enw ac yn haeddiannau Iesu. Amen.